10 ffordd o ailddefnyddio pot iogwrt

Amcanion dysgu:

Deall y gellir ailddefnyddio eitemau sy'n cael eu taflu i ffwrdd fel arfer mewn llawer o ffyrdd hwyliog.

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

Arbed ac Ailddefnyddio

Gwybodaeth ymarferydd:

Mae llawer o botiau iogwrt yn cael eu taflu i ffwrdd bob dydd, er y gellir eu hailddefnyddio mewn ffyrdd ymarferol. Dyma 10 syniad i helpu i'w hailddefnyddio yn hytrach na'u taflu i ffwrdd neu eu hailgylchu ar unwaith.

Paratoi:

I ddechrau, y cyfan rydych chi ei angen yw potiau iogwrt wedi'u defnyddio sydd wedi'u glanhau a'u sychu.

Pot paent / dŵr (5+ pot iogwrt, paent a dosbarthwyr paent dewisol)
Sefydlwch orsaf baent hunanwasanaeth yn yr ardal gelf gan ddefnyddio poteli pwmp sebon wedi'u hailddefnyddio a photiau iogwrt bach. Gall paent gael ei wastraffu'n aml os yw plant yn llenwi platiau papur gyda mwy nag sydd ei angen arnynt. Mae potiau iogwrt yn gweithio'n well oherwydd eu bod yn dal symiau llai ac yn haws i blant eu dal wrth ddefnyddio'r pwmp.

Mae'r awgrym syml hwn yn lleihau gwastraff paent ac yn darparu ffordd syml ac effeithiol o annog ailddefnyddio. Anogwch y plant hefyd i olchi, sychu a dychwelyd y potiau ar ôl eu defnyddio!

Gêm pentyrru
(6+ pot iogwrt)
Gall plant fwynhau pentyrru, dymchwel ac ailadeiladu potiau iogwrt heb gost prynu cwpanau sy'n pentyrru!

Potiau planhigion
(digon o botiau i bob plentyn yn y dosbarth, compost a hadau)
Gall potiau planhigion fod yn ddrud, yn enwedig wrth brynu digon ar gyfer dosbarth cyfan.
Mae potiau iogwrt yn ddewis da oherwydd eu bod y maint cywir ar gyfer hau hadau nes bod yr eginblanhigion yn barod i'w hailblannu.

Cynhwysydd chwarae dŵr
(3–10 pot, pob un gyda rhif a safleoedd tyllau gwahanol)
Mae potiau iogwrt yn gweithio'n dda ar gyfer chwarae dŵr oherwydd nad ydynt yn cymryd llawer o le yn y hambwrdd dŵr. Gallwch hefyd wneud tyllau yn y gwaelod i greu effeithiau gwahanol, gan roi cyfle i blant arbrofi.

Gêm dal pompom / gêm taflu at darged
(6+ pot a phompoms)
Gellir defnyddio potiau iogwrt ar gyfer gemau hwyliog. Gall plant geisio dal pompoms yn eu potiau ar ôl eu taflu i'r awyr, neu gallant daflu'r pompoms i'r potiau fel gêm targed. Gallech hefyd osod y potiau'n agos at ei gilydd i greu her hwyliog tebyg i ffair.

Archwilio iâ
(4+ pot, dŵr ac unrhyw beth yr hoffech chi ei ychwanegu)
Mae potiau iogwrt yn faint delfrydol ar gyfer gwneud gweithgareddau archwilio iâ syml. Ychwanegwch anifeiliaid plastig, petalau, ffrwythau neu eitemau bach eraill.
Llenwch y potiau â dŵr a'u rhewi dros nos. Unwaith y byddant wedi rhewi, dylai'r siapiau iâ ddod allan yn hawdd a bod yn barod ar gyfer chwarae.

Potiau mathemateg
(10 pot, pen marcio a lluniau o ffrwythau)
Gellir defnyddio potiau iogwrt ar gyfer llawer o weithgareddau mathemateg, gan gynnwys cyfrif a didoli. Rhowch rifau ar y potiau a gofynnwch i'r plant roi'r nifer cyfatebol o hadau ym mhob un. Gellir defnyddio potiau iogwrt hefyd i ddidoli gwahanol hadau. I wneud y gweithgaredd yn fwy heriol, ychwanegwch luniau o ffrwythau ar y potiau fel y gall plant baru pob hedyn â'r ffrwyth cywir, fel afal, oren neu felon dŵr.

Potiau teimlo
(5+ pot ynghyd ag unrhyw ddeunyddiau cyffyrddol)
Mae potiau teimlo yn ffordd wych i blant archwilio drwy gyffwrdd ac nid oes angen iddynt fod yn ddrud. Gallwch wneud fersiynau syml gan ddefnyddio potiau iogwrt wedi'u llenwi â deunyddiau fel gwlân cotwm, sbwng, toes chwarae neu ddarnau ffabrig fel sidan neu felfed. Ceisiwch gynnwys amrywiaeth o weadau gwahanol.

Pecynnu bwyd chwarae rôl ar gyfer y gornel gartref
(3+ pot ac unrhyw ddewis bwyd)
Mae plant yn aml yn mwynhau defnyddio pecynnau bwyd go iawn wrth chwarae rôl, felly beth am ychwanegu rhywbeth y tu mewn i'r pot, fel toes chwarae? Gall y plant ei ddefnyddio yn y gornel gartref wrth esgus bwydo babi.

Gêm paru synau
(6+ pot ac eitemau i greu synau)
Mae hon yn gêm wrando syml. Llenwch ddau bot gyda'r un eitem, fel un concyr, a dau bot arall gydag eitem wahanol, fel hadau blodyn yr haul. Dewiswch ddeunyddiau sy'n gwneud synau gwahanol amlwg wrth eu hysgwyd. Cymysgwch y potiau ar fwrdd a gofynnwch i'r plant godi dau ar y tro i benderfynu a ydynt yn cyfateb. Dechreuwch gyda nifer fach o botiau a chynyddwch yr her yn raddol.

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy
The Moondance Foundation
Arbed ac Ailddefnyddio